OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

2024 Rhif 358 (Cy. 66)

2024 No. 358 (W. 66)

Y GWASANAETH IECHYD GWLADOL, CYMRU

NATIONAL HEALTH SERVICE, WALES

Gorchymyn Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Gwasanaethau Ambiwlans Cymru (Sefydlu) (Diwygio) 2024

The Welsh Ambulance Services National Health Service Trust (Establishment) (Amendment) Order 2024

NODYN ESBONIADOL

Mae'r Gorchymyn hwn yn diwygio Gorchymyn Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Gwasanaethau Ambiwlans Cymru (Sefydlu) 1998 ("y prif Orchymyn") er mwyn newid enw Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Gwasanaethau Ambiwlans Cymru i Ymddiriedolaeth Brifysgol Gwasanaeth Iechyd Gwladol Gwasanaethau Ambiwlans Cymru.

EXPLANATORY NOTE

This Order amends the Welsh Ambulance Services National Health Service Trust (Establishment) Order 1998 ("the principal Order") to change the name of Welsh Ambulance Services National Health Service Trust to Welsh Ambulance Services University National Health Service Trust.

2024 Rhif 358 (Cy. 66)

Y GWASANAETH IECHYD GWLADOL, CYMRU

Gorchymyn Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Gwasanaethau Ambiwlans Cymru (Sefydlu) (Diwygio) 2024

Gwnaed *12 Mawrth 2024*

Yn dod i rym *1 Ebrill 2024*

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir gan adrannau 18(1), 203 a 204(1) o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006(**1**), a pharagraff 5(1)(a) o Atodlen 3 iddi, ar ôl cwblhau'r ymgynghoriad a ragnodir o dan adran 18(3) o'r Ddeddf honno, yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn:

Enwi, dod i rym a dehongli

1.—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Gwasanaethau Ambiwlans Cymru (Sefydlu) (Diwygio) 2024 a daw i rym ar 1 Ebrill 2024.

(2) Yn y Gorchymyn hwn, ystyr "y prif Orchymyn" yw Gorchymyn Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Gwasanaethau Ambiwlans Cymru (Sefydlu) 1998(**2**).

Diwygio erthygl 1 o'r prif Orchymyn

2. Yn erthygl 1(2) o'r prif Orchymyn, yn y diffiniad o "the trust", yn lle "Welsh Ambulance Services National Health Service Trust" rhodder "Welsh Ambulance Services University National Health Service Trust".

(**1**) 2006 p. 42.
(**2**) O.S. 1998/678 fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2009/201 (Cy. 26); O.S. 2013/2729 (Cy. 263) ac O.S. 2016/483 (Cy. 154).

2024 No. 358 (W. 66)

NATIONAL HEALTH SERVICE, WALES

The Welsh Ambulance Services National Health Service Trust (Establishment) (Amendment) Order 2024

Made *12 March 2024*

Coming into force *1 April 2024*

The Welsh Ministers, in exercise of the powers conferred by sections 18(1), 203 and 204(1) of, and paragraph 5(1)(a) of Schedule 3 to, the National Health Service (Wales) Act 2006(**1**), after completion of the consultation prescribed under section 18(3) of that Act, make the following Order:

Title, coming into force and interpretation

1.—(1) The title of this Order is the Welsh Ambulance Services National Health Service Trust (Establishment) (Amendment) Order 2024 and it comes into force on 1 April 2024.

(2) In this Order, "the principal Order" means the Welsh Ambulance Services National Health Service Trust (Establishment) Order 1998(**2**).

Amendment of article 1 of the principal Order

2. In article 1(2) of the principal Order, in the definition of "the trust", for "Welsh Ambulance Services National Health Service Trust" substitute "Welsh Ambulance Services University National Health Service Trust".

(**1**) 2006 c. 42.
(**2**) S.I. 1998/678 as amended by S.I. 2009/201 (W. 26); S.I. 2013/2729 (W. 263) and S.I. 2016/483 (W. 154).

Diwygio erthygl 2 o'r prif Orchymyn

3. Yn lle erthygl 2 o'r prif Orchymyn rhodder—

"**2. Establishment of the trust**

There is hereby established an NHS trust which shall be called Welsh Ambulance Services University National Health Service Trust or Ymddiriedolaeth Brifysgol Gwasanaeth Iechyd Gwladol Gwasanaethau Ambiwlans Cymru."

Arbed

4. Nid yw'r newid enw y rhoddir effaith iddo gan erthygl 3—

(a) yn effeithio ar unrhyw hawl sydd gan unrhyw berson, nac ar unrhyw rwymedigaeth sydd ar unrhyw berson, na

(b) yn annilysu unrhyw offeryn (pa un a'i gwnaed cyn, ar neu ar ôl y diwrnod y daw'r Gorchymyn hwn i rym) sy'n cyfeirio at Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Gwasanaethau Ambiwlans Cymru, a rhaid dehongli pob offeryn neu ddogfen arall sy'n cyfeirio at yr enw hwnnw fel pe bai'n cyfeirio at yr ymddiriedolaeth.

Amendment of article 2 of the principal Order

3. For article 2 of the principal Order substitute—

"**2. Establishment of the trust**

There is hereby established an NHS trust which shall be called Welsh Ambulance Services University National Health Service Trust or Ymddiriedolaeth Brifysgol Gwasanaeth Iechyd Gwladol Gwasanaethau Ambiwlans Cymru."

Saving

4. The change of name effected by article 3 does not—

(a) affect any right or obligation of any person, or

(b) invalidate any instrument (whether made before, on or after the day on which this Order comes into force) which refers to Welsh Ambulance Services National Health Service Trust, and all instruments or other documents which refer to that name must be construed as referring to the trust.

Julie Morgan

Y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol o dan awdurdod y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, un o Weinidogion Cymru
12 Mawrth 2024

Deputy Minister for Social Services under authority of the Minister for Health and Social Services, one of the Welsh Ministers
12 March 2024

©ⓟHawlfraint y Goron 2024

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y DU gan Y Llyfrfa Cyf dan awdurdod a goruchwyliaeth Jeff James, Rheolwr Llyfrfa Ei Fawrhydi ac Argraffydd Deddfau Senedd y Brenin.

© Crown copyright 2024

Printed and published in the UK by The Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Jeff James, Controller of His Majesty's Stationery Office and King's Printer of Acts of Parliament.

ISBN 978-0-348-39553-2

£5.78

http://www.legislation.gov.uk/id/wsi/2024/358